PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 391 | MEDI 2016












Bydd Lisa Angharad yn un o gyflwynwyr newydd y gwasanaeth newydd Radio Cymru Mwy fydd yn dechrau ar y we dydd Llun Medi 19. Pob hwyl iddi!



Sean Fitzpatrick, Artro, Penrhyn-coch, enillodd Gwpan y diweddar Meirion Jones Glanceulan yn rhoddedig gan y ddiweddar Parchg Lona Jones, am yr arddangosiad gorau yn Adran Ffotograffiaeth yn Sioe Penrhyn-coch.



Mr a Mrs Bert Jones, Glan Nant, Bow Street enillodd Dlws Coffa Parker ac E J Tanner a Chwpan Ceri a Jean Davies yn Sioe Fawr Llanelwedd.



Plannu coeden er cof am Dai England - gweler t.4-5

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Hydref –** Deunydd i law: **Hydref** 6; Dyddiad cyhoeddi: **Hydref** 19

**MEDI 16** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00

**MEDI 17** Cyngerdd mawreddog yng Nghapel Bethel, Aberystwyth yng nghwmni Rhys Meirion, Aled Wyn Davies, Shân Cothi a Bois y Gilfach, gyda Glan Davies yn arwain. Tocynnau - £10 - ar werth o Siop Elusen HAHAV yn Heol y Wig, Aberystwyth neu ffoniwch Megan ar ( 01970) 612768. Aiff holl elw'r noson i'r Hosbis.

**MEDI 18** Bore Sul Taith tractorau Penrhyn-coch. Te a cacennau 9.00 Gadael Ysgol Penrhyn-coch am 10.15 Am fwy o fanylion cysyllter â Lynwen 07711 968497 neu Wyn Thomas 01559 363635 / 07772 843668

**MEDI 20** Nos Fawrth Cyfarfod Blynyddol y Tincer ym Methlehem, Llandre am 7.00

**MEDI 21** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Eurig Salisbury, enillydd Medal Ryddiaith 2016 yn festri Horeb am 7.30

**MEDI 24-25** Dyddiau Sadwrn a Sul. Dyddiau agored Gweithdai Rheilffordd Cwmrheidol yn Aberystwyth. Cyfle i weld y tu mewn i adeilad sydd fel arfer ar gau i'r cyhoedd. 9.00-5.00

**HYDREF 5** Nos Fercher Cyfarfod Diolchgarwch Horeb Penrhyn-coch yng nghwmni y Parchg Judith Morris yn sôn am ei hymweliad â gwlad Groeg am 7.00

**HYDREF 5-7** Nosweithiau Mercher – Gwener Theatr Genedlaethol yn cyflwyno 'Merch yr Eog' gan Owen Martell ac Aziliz Bourges yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 7.30. Cyd-gynhyrchiad rhwng y Theatr Genedlaethol a Teatr Piba o Lydaw.

**HYDREF 8** Dydd Sadwrn Diwrnod Maes CFFI Ceredigion yn IBERS

**HYDREF 9** Prynhawn Sul Oedfa gymun a diolchgarwch Siloa, Cwmerfyn am 2.00

**HYDREF 13-15** Nosweithiau Iau – Sadwrn Arad Goch yn cyflwyno cyflwyniad dwyieithog A good clean heart yn Arad Goch am 7.30; matinee dydd Gwener – am 2.00. Ffôn: 617998

**HYDREF 14** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00

**HYDREF 14** Nos Wener Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach am 7.30

**HYDREF 16** Pnawn Sul Taith tractor Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Rhydypennau rhwng 2 a 5. Gadael o Ysgol Rhydypennau £10 y tractor. Mwy o fanylion Nia Gore 07968652822

**HYDREF 19** Nos Fercher Balchder Bro – dathlu llwyddiant tri o'n llenorion – ym Methlehem, Llandre am 7.30. (Gweler t.4)

**HYDREF 20** Nos Iau Dana Edwards yn sôn am ei nofel Pam? Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30 **SYLWER Y CYNHELIR Y NOSON HON AR NOS IAU**

**TACHWEDD 10** Trafodaeth: 'Brexit a dyfodol Cymru.' Siaradwyr: Jonathan Edwards AS a Simon Thomas AC, gydag Elin Jones yn cadeirio. Noson wedi'i threfnu gan gangen Plaid Cymru, Rhydypennau yn Neuadd Rhydypennau am 7.30. Croeso cynnes iawn i bawb.

**Cafodd y Golygydd drafferthion gyda derbyn e-byst – yn enwedig negeseuon o gyfeiriadau @btinternet.com. Defnyddiwch Ytincer@googlemail.com i gysylltu os gwelwch yn dda.**


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mehefin 2016

**£25** (Rhif 239) Ceris Gruffudd, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
**£15** (Rhif 46) Aled Bebb, Penpistyll, Goginan
**£10** (Rhif 168) Jane Jones, 107 Maesceinion, Aberystwyth

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mehefin 22

**Annwyl Bawb**,
Wedi 32 o flynyddoedd fel Dirprwy a Phennaeth Ysgol Rhydypennau mae'n amser trosglwyddo'r awennau i Mr. Peter Leggett.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am wneud fy nghyfnodau i a fy mhlant yma yn rhai hapus iawn.

Diolch yn fawr i chi am eich casgliad hael ar fy ymddeoliad, a rydw i wedi gwerthfawrogi eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn fawr dros y blynyddoedd.

Dymunaf pob llwyddiant i bawb sydd yn gysylltiedig â'r ysgol unigryw hon i'r dyfodol.

Yn ddiffuant,
Adrian

### Y Prifathro D. J. Davies (1879-1935)

Bydd y Parchg Ddr John A. McIntosh o Sydney, Awstralia yn rhoi sgwrs fer yng ngwasanaeth y boreol weddi yn Eglwys St. Ioan, Penrhyn-coch ar 25 Medi. Cynhelir y gwasanaeth am 10.45 y bore.

Testun ei sgwrs fydd bywyd a gwaith Archddiacon David John Davies (1879-1935). Ganwyd Davies ym Mhantgwyn, Bont-goch yn 1879 a daeth yn brifathro dylanwadol ar goleg diwinyddol pwysicaf Awstralia, sef Moore College, Sydney, yn 1911. Cyhoeddwyd ysgrif gan Richard Huws ar Davies yn rhifyn Tachwedd 2008 o *Bapur Pawb*, ac mae ar gael ar eu gwefan: http://papurpawb.com/pdf/pp%20tachwedd%2008.pdf

### Hen Dinceriaid

A oes rhywun a fyddai yn hoffi cael ôl rifynnau o'r ***Tincer*** o'r flwyddyn 1983 ymlaen? Mae croeso i chi gysylltu â Gwynfor neu Jean Pencefn ar 01970 828790.

## 30 MLYNEDD YN OL



Ym mis Mehefin bu nifer o aelodau canghenau Penrhyn-coch a Rhydypennau yn cynrychioli Ceredigion yn y nofio yn y Chwaraeon Cenedlaethol a gynhaliwyd yn y Drenewydd. Daeth Margaret Rees yn gyntaf yn y nofio broga, Iris Richards yn ail yn y nofio cefn, Gwen Davies yn drydydd yn y nofio rhydd a daeth tîm cyfnewid Penrhyn-coch, aef Iris, Gwen, Linda a Susan Hughes, yn ail. Llongyfarchiadau iddynt. (O'r *Tincer* Medi 1986)

### Emyn a thôn leol

Mae Rhaglenni y Gymanfa Ganu 2016/7 allan ac ar gael trwy'r eglwysi. Wedi ei chynnwys eleni mae emyn 'Ffydd' o waith Dikys Baker-Jones, Gaerwen, Bow Street ar dôn o eiddo Alan Wynne Jones. Cynhelir cymanfa 2017 ym Methel, Tal-y-bont ar Fai 14 am 10.00 a 5.30. Arweinydd y nos fydd Alwyn Evans, Machynlleth.
Dyma gefndir yr emyn 'Ffydd'
"Roedd braslun o'r emyn yn fy mhen ers tro – ac fe ddaeth at ei gilydd pan welais mewn mwy nag un rhaglen Eisteddfod fod Ffydd wedi ei osod fel testun ar gyfer cyfansoddi emyn.

Emyn o brofiad personol ydyw – profais gadernid a chynhaliaeth Crist yn fy mywyd bod dydd wrth frwydro trwy brofedigaethau llymaf bywyd, ac atseinir hynny yn y geiriau. Cyfansoddais yr emyn mewn mesur anghyfarwydd. Ar gais taer Vernon, anfonais yr emyn i *Gair o'r Garn* – a gwelodd Alan Wynne Jones y geiriau, a gofyn beth am y dôn? Ond doedd yna yr un dôn yng *Nghaneuon Ffydd* yn ateb i'r geiriau. Ac fe gynigodd yn garedig iawn i gyfansoddi tôn, a dyma y dôn 'Gaerwen' a'r emyn 'Ffydd' wedi cyrraedd y Detholiad."

**Dilys Baker-Jones**

### Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cylch Cinio Aberystwyth £100

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch.
Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Telerau hysbysebu

Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn – misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis £4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)

# LLANDRE

### Gradd
Llongyfarchiadau i Ainhoa Dafis-Sagarmendi ar gael gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Biocemeg ym Mhrifysgol Sheffield fis Mehefin.

### O'r ysbyty
Croeso adref i Erddyn James, Lluarth, Taigwynion o'r ysbyty ar ôl cael llawdriniaeth yn ddiweddar; hefyd croeso adref o'r ysbyty i Marian Jenkins, Eryl, Llandre, a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar.

### Marwolaeth
Trist oedd clywed am farwolaeth David Bryan James, Dolhuan, Llandre yn Hafan-y-Waun, Waunfawr. Yn enedigol o Sir Gaerfyrddin, bu David yn aelod ffyddlon o staff dysgu'r hen Adran Botaneg Amaethyddol yn y Brifysgol a'i brif ddiddordeb academaidd oedd edrych ar effaith ffactorau amgylcheddol ar dyfiant planhigion a chnydau. Ym 1958 fe briododd David ag Eleanor M Jones o Aberystwyth oedd yn gyn-fyfyrwraig yn y Brifysgol. Fe ddaeth y ddiweddar Dr Eleanor James yn fathemategydd o fri a roddodd wasanaeth hir i'r Adran Fathemateg. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu ar yr adeg trist hwn. Cynhaliwyd gwasanaeth angladd yn Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon, Aberystwyth, dydd Mercher 31 Awst gyda chladdedigaeth yn dilyn ym Mynwent Pen-y-Garn, Llandre. Derbyniwyd rhoddion tuag at Hafan-y-Waun trwy law Gwyn Evans, Trefnwyr Angladdau C.T.Evans, Brongenau, Llandre, Aberystwyth, SY24 5BS.

### Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Wendy Morgan, Maes Mieri, a'r teulu ar golli tad a tad-cu annwyl, sef Dai Evans, Rhoswelir, Bwlch—y-groes, Llandysul yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Simon a Paul Pitt ar golli eu mam - Hazel Pitt, Lôn Glanfred - yn ddiweddar.

### Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Gemma a Carwyn Williams ar enedigaeth mab - Osian Llewellyn - mis Gorffennaf.

### Arholiadau
Llongyfarchiadau i Megan Harvey a Bethan Henley ar eu llwyddiant yn yr arholiadau yn ddiweddar.



### Ffilmio
Mae Glain a Miriam,Pentan, Llandre wedi bod yn ffilmio gyda criw cyfres deledu Y Gwyll/Hinterland - bydd y gyfres newydd sy'n cynnwys ymddangosiad y merched ar y teledu yn yr Hydref. Dyna lun ohonynt ar y set gyda Richard Harrington sef DCI Mathias ei hun.

### Croeso
Croeso i rif 1 Clos Ceiliog, Llandre i Geraint ac Eiry Williams a'u mab Rhodri. Hefyd dymuniadau gorau i Rhodri sydd yn mynd i'r brifysgol eleni.

### Diolch
Dymuna Nans Morgan ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a gafodd pan yn dathlu pen blwydd arbennig diwedd Awst. Codwyd cyfanswm o £270 at gronfa Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch i bawb am eu haelioni.

### Merched y Wawr Llandre
Bydd Merched y Wawr yn cychwyn ar eu tymor newydd nos Lun, 19 Medi,am 7.30 o'r gloch ym Methlehem, pryd y bydd Iestyn Hughes yn dod atom i sôn am ei lyfr *Ceredigion Wrth Fy Nhraed.*

### Mrs Hilda Griffiths
Trist yw cyhoeddi marwolaeth Mrs Hilda Griffiths, neu Hilda Daniels fel y byddai pobl lleol yn cofio amdani. Magwyd Hilda yng Nglyntuen, Llandre, yn ferch i Tom ac Esther Daniels. Ar ôl priodi Tom Ceredig Griffthis bu'n byw yn Awstralia am rai blynyddoedd, ac er mai yn Farnborough mae eu cartref bellach roedd hi wedi cadw Glyntuen a byddai hi a'i gŵr yn treulio amser yn yr hen gartref yn rheolaidd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu i gyd.

### Banc Bro - Clwb 50 Genau'r-glyn
**Enillwyr Banc Bro**
**Gorffennaf**
1. Dewi G Hughes; 2. Llinos Dafis;
3. Greg Hill

**Medi**
1. Sian Elin Jones; 2. Eddie Jenkins
3. Ken a Joy Evans

BANC BRO LLANFIHANGEL GENAU'R-GLYN

**BALCHDER BRO DATHLU LLWYDDIANT TRI O'N LLENORION**

**GRUFFYDD ALED WILLIAMS** – AR FRIG EI GATEGORI – LLYFR Y FLWYDDYN 2016
**VERNON JONES** – PENCAMPWR CYSTADLAETHAU LLENYDDOL YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
**ANWEN PIERCE** – BARDD CADEIRIOL EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS 2016

**BETHLEHEM, LLANDRE**
NOS FERCHER, **HYDREF 19eg**, 7.30yh

## David (Dai) England

**Cyfaill da a chymwynaswr bro**
Plannwyd coeden yn y parc chwarae yn Llandre ar ddydd Sadwrn Medi 11eg i gofio am David (Dai) England. Bu farw Dai o'i anafiadau yn sgîl damwain ffordd erchyll ger Capel Dewi ym mis Mawrth 2015 a bu ei farwolaeth yn golled enfawr i'w deulu ac i gymdogaeth gyfan. Roedd Dai yn bennaf yn ddyn teulu ac roedd hefyd yn gyfaill da ac yn gymwynaswr bro. Roedd ei weithgaredd yn ymestyn o fywyd cymunedol ardal Genau'r-Glyn i Eglwys Llanbadarn Fawr ac i Glwb Rygbi Aberystwyth. Bu'n Drysorydd Y Tincer, yn llywodraethwr ar Ysgol Rhydypennau, yn Gynghorydd Cymuned ac roedd yn un o sylfaenwyr Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn ac ef a sefydlodd y Clwb 50 a'i reoli'n fisol wedi hynny. Fe'i disgrifiwyd fel person uchel ei barch, yn wirfoddolwr gwerthfawr ac yn deip prin oedd yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau a swyddi yr oedd llawer ohonom yn osgoi eu gwneud.

Achlysur teuluol oedd y ddefod o

# *Llun y mis*

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.
Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



Llwybr Ceredigion – Wallog

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Dilynwch y Tincer ar Trydar
**@TincerY**

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos
Mehefin, Gorffennaf
Awst a Medi
01970 820 050
Pennau

## TREFEURIG

Llongyfarchiadau i Mari Healy raddiodd mewn ffotograffiaeth yng Nghaerleon ddechrau'r haf.

blannu'r goeden ac fe gynrychiolwyd y Cyngor gan y Clerc Richard Lewis a'r Banc Bro gan Llinos Evans, Gwynfryn Evans a Wynne Melville Jones. Rhoddwyd y dywarchen olaf ar y goeden gan Mair England gyda chymorth dau o'i hwyrion Osian a Lisa. Diolchwyd i aelodau Cyngor Cymuned Genau'r-glyn am eu cydweithrediad ac i Trefor Owen, Meirion Lewis a Paul James am eu cymorth ymarferol ac i aelodau Banc Bro am wneud y cyfan yn bosibl.
**Llun Iestyn Hughes**



# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

## Suliau Capel Pen-llwyn

**Medi**

18 5.00 Bugail
25 10.00 Oedfa Menter Gobaith yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth

**Hydref**

2 10.00 Bugail - cymun
9 Oedfa'r ofalaeth
16 10.00 Gordon MacDonald
23 5.00 Bugail
30 5.00 R.E. Humphreys

## Merched y Wawr Melindwr

Dydd Sadwrn Mehefin 18fed oedd diwrnod ein trip blynyddol. Dechreuwyd ar y daith o Gapel Bangor a cyrhaeddwyd Llandeilo erbyn amser cinio. Treuliwyd orig ddifyr iawn yn y dref hynafol yma ac yna aeth y bws a ni i Erddi Aberglasney ychydig filltiroedd i lawr y ffordd. Cawsom amser hyfryd iawn yn cerdded o amgylch y gerddi ac yn dysgu am hanes y Plas drwy gyfrwng fideo. Mae gan y lle hanes diddorol iawn gan ei fod wedi newid perchnogion lawer gwaith yn ystod y canrifoedd ond yn 1977 cafodd ei brynu gan grŵp o bobl sydd yn galw eu hunain yn Ymddiriedolwyr Aberglasney. Maent yn gweithio yn galed iawn i adfer y tŷ a'r gerddi yn ôl i'w ysblander. Ar ôl cael cwpanaid yn y lle bwyta aethom eto ar y bws yn ôl i Dafarn Ffostrasol i fwynhau swper hyfryd iawn, diwedd perffaith i'r dydd. Diolch i Delyth, Heulwen Aurona ac Angharad am drefnu y cyfan yn y dirgel a dymuniadau gorau i Eirwen Mcnulty a gafodd ddamwain drwy syrthio ar ôl dod allan o'r bws ger Llandeilo.

Nos Fawrth 6ed o Fedi daeth ein aelodau at ei gilydd i gychwyn tymor newydd sydd yn gweld mudiad Merched y Wawr yn dathlu 50 mlwydd oed . Cyhoeddwyd y rhaglen ,a da oedd gweld bod y gangen wedi llwyddo cais ariannol Cronfa 'r Loteri. Gyda busnes y gangen wedi ei drafod cyflwynodd ein Llywydd Angharad Jones fam a merch o Brynglas, Ponterwyd, sef Meinir ac Angharad Davies. Cafwyd arddangosfa wych gan y ddwy o'u gwaith llaw. Meinir yn cychwyn nôl ar gwaith gwynio ar ôl bod yn fam a gwraig ffarm, ac yn ceisio amser iddi hun. Angharad yn dysgu ers yn yr ysgol gynradd ac yn ail gylchu defnydd a dangos gown ffasiynol iawn allan o deis dynion cyn dangos sut i wneud 'cacenau bach cwpan' allan o wahanol ddefnydd.

I gloi y noson cafodd pawb baned a chlonc hefo cacen bach cwpan iawn y tro ma. Enillodd sawl aelod raffl un o gacenau bach Angharad. Roedd yn amlwg fod pawb wedi mwynhau'r noson a neb yn moin troi am adref.

Mis nesaf byddwn yn ymweld â Eglwys Sant Padarn, Llanbadarn Fawr am 6-30yh.

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Billy Evans, Llwyniorwerth Isaf, ar enedigaeth eu gor-wyres Olivia Elizabeth, merch fach Jane. ac i Mrs Eirwen Sedgwick, Rheidol House, ar enedigaeth ei gor gor nai bach, Eric James, mab bach Hywela a Dai Saycell.

## Sioe Capel Bangor

Cafwyd sioe lwyddiannus iawn eleni eto gyda'r tywydd yn braf a tyrfa gref wedi troi allan. Cafwyd cystadlu brwd ar y cae ac yn y babell. Llywydd y sioe eleni yw Margaret Davies, Aran Deg, Cwmrheidol ac mi fu yn brysur iawn ar hyd y cae trwy y dydd. Yn ei barn hi yr anifail gorau ar y cae oedd y ddafad o eiddo Ceri Davies, Pentyparc, Llan-non, a'r ceffyl gorau ym marn y beirniad Dafydd Morris, Neuadd Parc, oedd Felin y môr. Direudus, eiddo Bridfa Tynygwndwn. Enillydd y cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau gan berson lleol oedd Liz Collison, Dolcniw, a chafodd Efana Lewis, Ystrad, y wobr am y llysieuyn gorau. Cafwyd arddangosfa dda o hen beiriannau wedi ei threfnu gan Sion Davies , a bu yna gystadlu brwd yn adran y defaid a'r cneifio. Diolch i bawb am bob cymorth ac i'r pwyllgor gweithgar sydd yn cyfarfod yn rheolaidd bob mis.





Dafydd Morris gyda ei ddewis o geffyl gorau a Margaret Davies a Myra Matthews gyda'r anifail gorau ar y cae.

## Dymuniadau Da

Danfonwn ein cofion cynnes i Mr Barry Jones, Y Felin, sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

## Mynd i'r Coleg

Pob hwyl i Keiran Evans, Dolypandy, sydd yn mynd i'r coleg ar gwrs amaethyddiaeth yng Ngholeg Reaseheath , ger Nantwich, Swydd Caer yn fuan. Gwna dy orau Keiran.

## Priodasau

Bu Mr a Mrs Richard Hogger, Plas Melindwr, yn Norwich yn ddiweddar ym mhriodas eu mab Dicon a'i briodferch Laura. Ychydig yn ôl priododd eu merch hefyd, blwyddyn gostus iddynt !! Pob dymuniad da iddynt i gyd fel teulu.

## Parti gwahanol y Cŵn

Yn y llun mae parti Hugo yn 1 oed, mewn ystafell wedi ei addurno â balwns. Cafodd ef a'i ffrindiau redeg yn rhydd yn y cae cyn dod yn ôl i'r tŷ i gael het a danteithion i fwyta. Cafodd y plant ac oedolion de a chacen hefyd.Yn wir roedd yn barti i'w gofio!!!



# O'r Cynulliad Elin Jones

Mae hi wedi bod yn haf prysur yng Ngheredigion, gyda llawer o ddigwyddiadau diddorol gan gynnwys Eisteddfodau a Sioeau Amaethyddol trwy gydol y sir, fel arfer.

Ond mae yna hefyd waith i'w wneud yn y sir, gyda dau ddigwyddiad sydd angen sylw, gan eu bod yn effeithio'n fawr ar nifer o bobl yng Ngheredigion.

Y cyntaf yw'r newyddion bod y gwasanaeth bws 701 yn dod i ben. Roedd y bws yma, a oedd yn gyfarwydd iawn i nifer ohonom, maen siŵr, yn creu cyswllt uniongyrchol rhwng Aberystwyth a nifer o bentrefi a threfi ein sir gyda Chaerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd.

Roedd y cyswllt bws yn gyfarwydd iawn i fyfyrwyr Ceredigion, gyda nifer fawr ohonynt yn defnyddio'r gwasanaeth i deithio'n uniongyrchol rhwng trefi prifysgol fwyaf Ceredigion a thu hwnt.

Caiff hefyd ei ddefnyddio'n aml gan nifer o deithwyr hŷn fel modd cost effeithiol o deithio gyda sicrwydd a thawelwch meddwl i'n Prifddinas.

Rydw i wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith er mwyn gofyn i'r Llywodraeth gydweithio gyda Chyngor Ceredigion ac unrhyw darpar ddarparwyr y gwasanaeth er mwyn ei alluogi, a'i sicrhau i'r dyfodol.

Yn ail, fe ddaeth y newyddion am benderfyniad cyfranddalwyr cymdeithas Tai Cantref i gyfuno â chymdeithas tai Wales a West. Fe bleidleisiodd bwrdd cyfranddalwyr Tai Cantref i fynd ymlaen gyda'r cytundeb gwerth £30 miliwn a fydd yn gweld cymdeithas tai Wales a West yn cymryd rheolaeth o tua 1,800 o eiddo Tai Cantref.

Mae'n siomedig iawn i weld Tai Cantref yn dod i ben fel cymdeithas tai annibynnol. Fe roedd yn gymdeithas arloesol, yn ei dydd, ac mae rhaid gofyn cwestiynau treiddgar nawr am y rhesymau sydd wedi arwain at y sefyllfa yma. Fe ddylai Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad o'r hyn sydd wedi digwydd er mwyn dysgu gwersi i gymdeithasau tai eraill.

Mae dau aelod o staff newydd wedi dechrau yn fy swyddfa dros yr haf, sef Meirian Morgan o Fwlch-llan a Matthew Woolfall Jones sydd yn wreiddiol o Bont-y-pŵl, ond wedi byw yn Aberystwyth ers bron i ddeng mlynedd.

Cofiwch gysylltu ar unrhyw adeg er mwyn trefnu cyfarfod, neu mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa er mwyn trefnu apwyntiad cymhorthfa.



# DOLAU

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar John Rees, Talar Deg, fu farw ar Fehefin 29 yn Ysbyty Bron-glais. Bu'n byw yn Nhalar Deg am dros ddeugain mlynedd - dyn tawel a charedig a bydd colled ar ei ôl.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr a Mrs Gwynant Edwards, Nant-y-Felin, ar farwolaeth chwaer Gwynant, Mrs Glenys Davies, yn Nyfnaint. Glenys oedd yr ail o bum plentyn Nantsiriol, Bow Street. Bu ei brawd hynaf, Geraint, farw lawer blwyddyn yn ôl. Cydymdeimlwn hefyd â'i chwaer Eirian, sy'n byw ger Amwythig, a'i brawd Ceredig, sy'n byw yn Sheffield.

**Diolch**

Dymuna John a Beryl Hughes, Derwen Deg, Dolau, ddiolch i bawb a ddanfonodd gardiau ac anrhegion atynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Maent yn eu gwerthfawrogi yn fawr iawn. Llongyfarchiadau mawr i John a Beryl ar achlysur mor arbennig.

mudiad meithrin

**Cinio dathlu pen-blwydd Mudiad Meithrin yn 45**

**Hydref 21ain am 7.30yh**
yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth

Siaradwr gwadd: Dafydd Iawn

Pryd tri chwrs, adloniant ac ocsiwn addewidion: £45*

*mae'r pris yn cynnwys cyfraniad i Mudiad Meithrin

Ffoniwch 01970 639639 i archebu tocynnau.

# GOGINAN

**Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau**

Llongyfarchiadau i Anest Glyn ar basio'r LPC o Brifysgol y Gyfraith yng Nghaer ddiwedd Gorffennaf a dymuniadau gorau iddi hi ac Arawn wrth iddynt symud o'r ardal i Langefni!

**Gwella**

Dymunwn wellhad buan i Arwyn Roberts, Penbryn, ar ôl ei lawdriniaeth diweddar yn Ysbyty Bron-glais.

Hefyd danfonwn ein dymuniadau gorau i Islwyn Jones, Tir Na Nog, sydd yn dal yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Pen blwydd Hapus**

Cyfarchion pen blwydd hwyr i Pauline Vivash, Mount Pleasant, a ddathlodd ei phen blwydd yn wyth deg ganol Gorffennaf.

**Gwobr**

Llongyfarchiadau i Dr Lucy Taylor, Penbryn, ar ennill gwobr am ddysgu trwy Gyfrwng y Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth er mai dim ond ers ychydig flynyddoedd mae wedi dysgu'r iaith. Fe fu hefyd yn areithio am Batagonia yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan ei bod ar hyn o bryd yn gwneud gwaith ymchwil i'r Cymry yno.

**Newid Aelwyd**

Pob lwc i Nigel a Sue Hellawell, Valley Forge, wrth iddynt symud yn ôl i fyw yng nghynefin Sue yn Sir Fynwy.

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

Porchell
**Eich cigydd lleol**
**PEN-Y-GARN**
**FFON 828 447**
**LLUN: 9-5.30**
**MAW-SAD 8.00-5.30**
*Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol*

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
**CHWILIO AM LE I GYNNAL CYFARFOD, CYNGERDD NEU DDIGWYDDIAD ARALL?**
Mae gan Morlan neuadd fawr, dwy ystafell bwyllgor a bar coffi cysurus sy'n addas ar gyfer pob math o weithgarwch. Telerau gostyngol i grwpiau cymunedol, crefyddol ac elusennol.
**Cysylltwch am wybodaeth bellach: 01970-617996 neu morlan.aber@gmail.com**
*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Brysiwch wella

Mae Paul Stephens, Blaenddol, wedi derbyn dwy lawdriniaeth yn ystod yr haf, un yn Ysbyty Gobowen a un arall yn Ysbyty Treforus. Mae yn gwella yn dda erbyn hyn ac mewn tipyn llai o boen.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dave a Sue Roberts, Rheidol View, ar farwolaeth tad Sue yng Nghanolbarth Lloegr ar ôl cystudd hir.

### Beirniadu

Llongyfarchiadau i John Lewis, Dolgamlyn, ar gael yr anrhydedd i fod yn feirniad yn adran y defaid yn Sioe Frenhinol Cymru 2017.

### Sioeau

Mae llawer o'r ardal wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Sioeau'r haf eleni eto. Llongyfarchiadau i Dafydd a Sian Morris ar ennill y gilwobr yn adran stoc ifanc adran C y Cobiau Cymraeg yn y Sioe Frenhinol. Llongyfarchiadau hefyd i deulu Troedrhiwceir ar eu llwyddiant hwythau yn adran y Ceffylau gwedd mewn sioeau bach a mawr.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ioan Lord Gelli-fach ar ei lwyddiant yn yr arholiadau Lefel A, a dymuniadau gorau i ti ar dy ben blwydd yn 18 oed ac yn y Coleg ym Mangor y flwyddyn nesaf. Bydd Ioan yn astudio Hanes Cymru ac Archaeoleg.

### Swydd gyntaf

Dymuniadau gorau i Ellie Doidge, Cae Gynon, yn ei swydd gyntaf fel athrawes yn Brighton.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Catrin Davies, Troedrhiwceir, ar ei dyweddiad a croeso cynnes i chi eich dau yn eich cartref newydd yn Nhroedrhiwlas.

### Urdd y Benywod

Dechreuodd y tymor gyda taith gerdded ar hyd llwybrau'r ardal a gorffen gyda paned a chlonc yn y Ganolfan Groeso. Mae strwythur yr Urdd wedi newid eleni gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal ar y penwythnos a chroeso i deuluoedd i ymuno â ni. Y cyfarfod nesaf fydd ymweld â pencadlys Tren Bach y Rheidol ar brynhawn Sadwrn Hydref 8fed. Croeso cynnes i bawb.

## Tymor Newydd Côr ABC

A hithau'n ddechrau tymor yr hydref, mae Côr ABC yn cychwyn ar raglen newydd o weithgareddau. Mae hwn, felly, yn gyfle gwych i'r rheini sydd â diddordeb mewn canu a cherddoriaeth gorawl ymuno â chôr â repertoire eang a chyffrous.

Côr cymysg sy'n cwrdd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth (bob nos Iau am 7.30pm) yw Côr ABC. Yn ogystal â chwrdd bob wythnos i baratoi ar gyfer cyngherddau a chystadlaethau, mae'r côr hefyd yn gymuned gyfeillgar ac yn lle gwych i gwrdd â ffrindiau newydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae repertoire y côr wedi ehangu i gynnwys cerddoriaeth gyffrous gan lawer o gyfansoddwyr cyfoes (Eric Whitacre, Ola Gjeilo, Morten Lauridsen, ac eraill), yn ogystal â cherddoriaeth gan gyfansoddwyr o Gymru (William Mathias, Alun Hoddinott, Gareth Glyn, Eric Jones) a darnau newydd a gomisiynwyd gan y côr. Mae hyn wedi denu cynulleidfa newydd ac ennill cydnabyddiaeth i'r côr mewn cystadlaethau a pherfformiadau.

O dan arweiniad Gwennan Williams, sy'n hanu o ardal y Tincer, mae nifer o brosiectau diddorol ar y gweill, gan gynnwys cyngherddau (mae'r Nadolig yn agosáu!), cystadlaethau (eisteddfodau a mwy), a darnau comisiwn newydd.

I ymuno â'r côr, cysylltwch â ni drwy e-bost (corabc10@gmail.com) neu ewch i wefan newydd y côr (corabc.cymru). Mae'r côr yn gyfeillgar ac mae bob amser yn falch o groesawu aelodau newydd.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu **hedyddcunningham@live.co.uk**

# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau**
**Madog 2.00**
**Medi**
18 Bugail
25 10.00 Oedfa Menter Gobaith yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth

**Hydref**
2 Judith Morris
9 Oedfa'r ofalaeth
16 Bugail
23 Terry Edwards
30 John Tudno Williams

**Aelwyd Newydd**
Dymuniadau gorau i Andrew ac Angharad Rowlands, Aneurin, Martha ac Elan sydd wedi symud o Talar Deg i'w cartref newydd – Cwm Main.

**Gwellhad buan**
Gwellhad buan i David Powell, Nantybwla, ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais;

a Tegwyn Lewis, Rhosgoch ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus.

Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r ddau.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â David Evans, Murmur y Coed ar ôl colli ei frawd Gareth o Benparcau;

â Mr a Mrs Simon Pitt, Cefn-llwyd ar golli mam Simon, Mrs Hazel Pitt, o Landre.



**Sioe Penrhyn-coch**
Megan a Siân Evans, Llainyfelin, Cefnllwyd. Cafodd Megan gyntaf a chwpan am wneud rhywbeth allan o glai yn y 'Brownies', ac hefyd 1af am anifail o garton llaeth. Cafodd ei chwaer fach, Siân gyntaf am greu mwgwd yn yr ysgol.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Lisa Pugh, Y Fronfraith, ar ddathlu ei phen blwydd yn 18 oed, a phob lwc ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant;

i Elinor Wills a John Moelfryn ar eu priodas yn Eglwys Llanbadarn Fawr ar 3ydd Medi;

i rhai o'r ardal fu'n llwyddiannus yn y sioeau lleol – Trystan Davies, Megan, Sian, a Shirley Evans, Cefn-llwyd.




**Capel Dewi**
**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â David a Dorothy Evans a'r teulu sydd wedi colli brawd i David yn ystod yr haf.

Lisa Evans, Fferm Fronfraith wedi dathlu ei phen blwydd yn 18 oed.

**Cefn-llwyd**
Llongyfarchiadau i Iona a Meirion Davies, Llwyngwyddil, ar ddathlu pen blwydd priodas berl.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# PENRHYN-COCH

## Suliau Horeb

**Medi**

18 2.30 Tomos Roberts-Young
25 10.00 Oedfa Menter Gobaith yng Nghapel y Morfa Aberystwyth

**Hydref**

2 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
9 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol
16 10.00 a 6.00 Cyfarfodydd Pregethu Seion Arfon Jones
23 10.30 Beti Griffiths Oedfa bregethu
30 2.30. Gruffydd Rhys Davies yn sôn am ei ymweliad â Jamaica. Bethel yn cydaddoli.

**Clybiau Sul**

18 Medi – ar y cyd yn Eglwys St Ioan
16 Medi – Llan Llanast yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch, 4.00-5.30 (rhagor o fanylion gan Wendy)
17 Medi – Trip ar y cyd i'r Animalarium yn y Borth (enwau i Wendy)
25 Medi – Sul Menter Gobaith yng Nghapel y Morfa Aberystwyth
16 Hydref – Clwb Sul Horeb
23 Hydref – Hanner Tymor
30 Hydref – Hanner Tymor
20 Tachwedd – Clwb Sul Horeb
27 Tachwedd – ar y cyd yn Horeb

## Clwb Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 28 Medi 12 a 26 Hydref. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Taith y Cochion

Yn ystod y bwrw Sul Medi 1af i'r 3ydd bu Ifan Morgan a Dafydd Jones o Gapel Coch, Ynys Môn yn wreiddiol, yn reidio beic o Gastell Coch, ger Caerdydd i Gapel Coch, Ynys Môn i godi arian i Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017. Buont ym mhentrefi Clawdd-coch, Bryn-coch (Castell-nedd), Cnwch-coch, Comins-coch (Ceredigion a Sir Drefaldwyn), Bont-goch, a Traeth Coch. Dyma nhw yn cael eu croesawu i Benrhyn-coch gan Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, y Cynghorydd Dai Mason, Lynwen Jenkins, Garej Tŷ Mawr, Gwerfyl Pierce Jones a Richard Owen (dau Fonwysyn sydd yn byw ym Mhenrhyn-coch) a Mairwen Jones a Ceris Gruffudd ar ran Eisteddfod Penrhyn-coch.Ar Medi 12 roedd y cyfanswm dros £3,000 at gronfa apêl leol Capel Coch i'r Eisteddfod. Mae modd cyfrannu yma https://www.justgiving.com/crowdfunding/taithycochion...

Dau gysylltiad arall – deuai Lewis Morris (1833-1907) fu yn byw yn Allt Fadog ac yn gweithio yn y gweithfeydd mwyn lleol o ardal Traeth Coch a chyflwynir yr arian i Gadeirydd Pwyllgor Gwaith 2017 – yr Athro Derec Llwyd Morgan fu'n byw ym Maesyfelin, Penrhyn-coch yn y 1960au.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchion i Angharad Billing, Caerdydd, gynt o Garn Wen) ar ennill gradd GSC (Gradd Sylfaenol yn y Celfyddydau ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin.

## Priodas hapus

Priodas hapus i Linda a Stephen Hughes, Dôl Helyg, a briodwyd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ddiwedd mis Gorffennaf.



## Priodas

Llongyfarchiadau i Jane (née Edwards), Maerdy Cwrt, a Will Richards ar eu priodas yn Eglwys St Ioan ar Awst 20. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

## Merched y Wawr

Fe fydd Merched y Wawr Penrhyn-coch yn dathlu 40 mlynedd ers eu sefydlu eleni ac rydym am gynnal cinio dathlu ar nos Iau 10fed o Dachwedd yng ngwesty'r Marine. Mae croeso cynnes i gyn aelodau ymuno gyda'r aelodau presennol i ddathlu. Os oes gennych ddiddordeb allwch chi gysylltu â Glenys Morgan 01970 828645 / 07792 967925 neu Sharon Jones 01970 828 982 / 07967 876 180

## Pel-droedwyr ifanc

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed dan 12 Penrhyn-coch am ennill Twrnamaint Gary Pugh dydd Sul 4 Medi gan ennill Tal-y-bont 2-0 yn y gêm derfynol!





**Graddio**

Llongyfarchiadau i Joe Scannell ar raddio yng Ngholeg Dawns a Pherfformio Theatr Bird, Llundain a phob hwyl iddo wrth fynychu clyweliadau dawns a sioe gerdd yn yr wythnosau nesaf.

**Croeso**

Croeso nol i'r ardal i Ceri a Luned John ac Owi – penodwyd Ceri yn athro Ffrangeg yn Ysgol Penweddig. Bydd Alun a Pam John, Ger-y-llan, yn falch iawn o'u cael yn yr ardal.

**I'r coleg**

Llongyfarchiadau hefyd i Anwen ar ei chanlyniadau lefel A a dymuniadau gorau ar ei chwrs seicoleg ym Mhrifysgol Hope Lerpwl.

**Dewis yn Gapten a Phennaeth Merched**

Llongyfarchiadau i Elin Haf Huxtable, Y Ddôl Fach, enwyd yn Gapten Tîm Merched Gleision Caerdydd. Mae Elin yn athrawes ymarfer corff yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pont-y-pŵl a newydd ei phenodi yn bennaeth y Merched yno.

**Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch**

**Gwasanaethau**

Cynhelir cwrdd diolchgarwch Eglwys Sant Ioan nos Fercher 28 Medi am 6.00pm a'r pregethwr gwadd yw'r Parchedig Aled Lewis, curad yng ngrŵp plwyfi Tregaron. Bydd Cymun Teulol Diolchgarwch am y cynhaeaf fore Sul 2 Hydref am 10.45.

**Bore Coffi**

Cynhelir bore coffi cymunedol bob dydd Mawrth 1af, 3ydd a 5 o'r mis yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch rhwng 10-11.30. Croeso i bawb.

**Gŵyl Coeden Nadolig**

Thema Gŵyl Coeden Nadolig Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch eleni fydd '**Cân Nadolig'**. Y dyddiadau fydd Sadwrn 3ydd-Sul 11eg Rhagfyr.

**Te Hufen a Mefus blynyddol**

Cafwyd Te Hufen a Mefus blynyddol llwyddiannus iawn unwaith eto yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch ar ddydd Sadwrn 9fed Gorffennaf.

Llywydd y prynhawn oedd Mrs Marion Jones o Ben-bont Rhydybeddau, aelod hynaf eglwys St Ioan Penrhyn-coch. Nid oedd Mrs Jones yn teimlo fel siarad yn gyhoeddus, ond fe baratowyd ychydig





o eiriau ar gyfer ei merch Delyth Ralphs siarad ar ei rhan. 'Roedd yn cofio'r Te Mefus cyntaf a gynhaliwyd nôl ym 1995 a heb golli'r un ers hynny. Diolchodd yn fawr am gael yr anrhydedd o fod yn llywydd y prynhawn, a dymunodd y gorau i de mefus y dyfodol. Cyflwynwyd basged o flodau iddi ar ran yr is-bwyllgor codi arian gan ei hwyres Meriel Ralphs.

Yr adloniant oedd y delynores Mrs Eleri Turner, a bu'n ein swyno gan ei dawn fedrus o ddefnydd y tannau. Mi fuodd Eleri yn adrodd am hanes ei theulu oedd yn byw yng nghyffiniau'r ardal.

Enillydd llwyddiannus dyfalu pwysau'r gacen oedd Mrs Jane Jones. Lansiwyd cwis newydd yn ystod y prynhawn gan Mrs Edwina Davies ar enillwyr oedd Richard ac Eirlys Huws, Bont-goch.

Diolch i bawb a chyfrannwyd i wneud y prynhawn yn un llwyddiannus.

**Bingo**

Bydd nosweithiau Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7 o'r gloch ar y dyddiadau canlynol: Nosweithiau Gwener 16 Medi, 14 Hydref a 18 Tachwedd.

**Pen blwydd arbennig**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Lyn Jones, Swyddfa'r Post, Penrhyn-coch, sy'n dathlu pen blwydd arbennig ar 23 Medi.

**Croeso**

Croeso i Rebecca Vearey-Roberts sydd wedi symud i Dolhelyg.

**Genedigaethau**

Llongyfarchiadau i Cat a Joe, Tregar, Garth ar enedigaeth Jake ddechrau'r haf; ŵyr i Paula a Dai, Maesyfelin.

i Emma a Jonathan, 52 Glan Ceulan ar enedigaeth Millie Jane ar 16 Gorffennaf

ac i Sara a Rhodri Gibson, Plas Gwyn, ar enedigaeth mab – Sion – ar Awst 5 – brawd bach i Mari a Gwen. Brysia wella Sara!

ac i Rob (Maerdy Cwrt) a Liz yn Cross Inn ar enedigaeth Ifan James ganol Awst, ŵyr i a Helen a RichardEdwards, Maerdy Cwrt.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Jennie a Lee, 11 Tan-y-Berth ar enedigaeth efeilliaid sef Zac a Riley, ganol Gorffennaf.

**Cefnogwr y Flwyddyn**

Llongyfarchiadau i Terry Jones, 13 Maesyrefail ar ennill gwobr Cefnogwr y Flwyddyn gyda Chymdeithas Cefnogwyr Manchester United, cangen Aberystwyth. Cafodd dlws mawr fel canlyniad.

**Brysiwch wella**

Dymunwn yn dda i Selwyn Evans, Kairali, fu yn yr ysbyty yng Nghaerdydd yn cael clun newydd.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Eirlys ac Elfed Evans a'r teulu ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith – Gareth Davies, Llundain.

Cydymdeimlwn â theulu Robert John Davies (gynt o Ger-y-llan) ar ei farwolaeth. Bu Robert John yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol fel Pennaeth Cyllid rhwng 1978 a 1984 cyn gadael i swydd gyda'r Comisiwn Cefn Gwlad Roedd yn 73 oed; cynhaliwyd yr angladd ym Amlosgfa Bae Colwyn ddiwedd Gorffennaf.

Cydymdeimlwn â Wendy ac Eirian Reynolds, a Derfel, Ger-y-llan a Manon a John ac Elen, Dôl Helyg ar farwolaeth tad Wendy yn Llanwnnen ddiwedd Mehefin.

ac â Hannah Evans a Cai, Glan Ceulan, ar farwolaeth mam-gu a hen fam-gu - Mrs Wena Evans, gweddw y diweddar Barchedig O.T. Evans ar Fehefin 25.

# PENRHYN-COCH

### Yr Athro Mike Foley

Gyda thristwch mawr nodir marwolaeth yr Athro Mike Foley, Maesyrefail. Yn frodor o Ealing, Llundain ymunodd â staff academaidd Prifysgol Aberystwyth ym 1974, pan gafodd ei benodi'n Ddarlithydd mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth America yn yr Adran Wleidyddiaeth gynt. Mae enw da Mike fel un o'r prif ymchwilwyr yn ei faes yn aruthrol. Enillodd glod am ei gyhoeddiadau o'r cychwyn cyntaf yn ei yrfa academaidd: cyhoeddwyd ei draethawd ymchwil PhD ar drawsnewidiad Senedd yr Unol Daleithiau gan Wasg Prifysgol Yale, ac fe'i gosodwyd ar restr fer Gwobr Woodrow Wilson Cymdeithas Gwyddor Gwleidyddiaeth America ym 1981. Roedd ei ymchwil yn canolbwyntio'n bennaf ar wleidyddiaeth UDA, gan gynnwys gwleidyddiaeth arlywyddol, theori gyfansoddiadol, polisi tramor a hanes syniadau. Mae ei lyfr ar *The British Presidency: Tony Blair and the Politics of Public Leadership* yn cymhwyso dirnadaethau a ddatblygodd yn sgîl blynyddoedd o astudio gwleidyddiaeth America i gyd-destun gwahanol, ac fe gyhoeddwyd ei lyfr diweddaraf, *Political Leadership: Themes, Contexts and Critiques*, gan Wasg Prifysgol Rhydychen yn 2013, gan ennyn parch mawr.

Bydd cydweithwyr a myfyrwyr yn cofio Mike fel athro ymroddgar, ymchwilydd ymroddedig, ac fel dyn hynod garedig a meddylgar. Cynigiodd glust gydymdeimladol i sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr, a pharodrwydd i wrando ar eu problemau ac i gynnig cymorth moesol ac ymarferol. Roedd Mike yn ddyn tawel a chanddo feddwl praff a synnwyr hiwmor sych. Bydd colled fawr ar ei ôl. Cydymdeimlwn â Frances ei weddw a'r plant – Joanna, Nicholas a Louise a'u teuluoedd.

### Noson yng nghwmni Osian Roberts

Braf oedd cael eistedd allan yn yr heulwen yn mwynhau barbeciw ar nos Wener 26ain Awst ym maes parcio clwb pêl-droed Penrhyn-coch. Dyma ddechrau da ar noson â naws cryf o falchder i gael bod yn Gymro, wrth drafod llwyddiant tîm Cymru yn rowndiau terfynol Euro 2016.

Trwy gysylltiadau gŵr Jane Jones, un o wardeiniaid ein heglwys, 'roedd modd cynnal y fath noson. Trefnodd Dai Alun Jones, is-lywydd o Gymdeithas Pêl-droed Cymru a chyn-ysgrifennydd cyffredinol o Gymdeithas Pêl-droed Canolbarth Cymru, i ni gael crys a phêl-droed wedi'u harwyddo gan garfan Cymru Ewro 2016 i arwerthu. Yr ydym hefyd yn ddiolchgar iawn iddo am drefnu ein gŵr gŵadd am y noson. Gwerthfawrogwn yn fawr i Dai, Jane a'r teulu am eu holl waith i wneud y noson yn un llwyddiannus.

Croesawyd pawb gan y Parchg Andrew Loat cyn trosglwyddo'r awenau i ddwylo galluog Dai Alun sef holwr ein 'Noson yng Nghwmni Osian Roberts'. I'r rhai ohonoch na ddilynodd lwyddiant ein tîm cenedlaethol i gyrraedd rowndiau terfynol Euro 2016, Osian yw'r dyn a lwyddwyd i roi Cymru ar fap pêl-droed y byd. Osian Roberts yw Is-reolwr Tîm Cenedlaethol Pêl-droed Cymru. Yn frodor o Ynys Môn, fe yrrodd o Gaerdydd ar gyfer y sesiwn holi ag ateb a thaith y tu ôl i lenni'r byd pêl-droed yng Nghymru. Fe eglurwyd i'r gynulleidfa sut y cafodd ei addysg prifysgol yn Unol Dalaethau'r Amerig nôl yn yr 80au, ac ef oedd y Cymro cyntaf i ennill ysgoloriaeth 'soccer' UDA. Chwaraeodd yn broffesiynol i'r cynghrair soccer Americanaidd cyn bod yn chwaraewr/reolwr a pharhaodd i hyfforddi hyfforddwyr cyn dychwelyd i Gymru. Mae Osian wedi hyfforddi dros 60 o gêmau rhyngwladol Cymru ar lefel hŷn, a braf oedd gweld nifer o hyfforddwyr lleol a fynychodd cyrsiau Addysg Hyfforddi Osian yn bresennol ar y noson. Trafodwyd dulliau hyfforddi proffesiynol a thactegau gyda'r gynulleidfa. Braf hefyd oedd gweld nifer o chwaraewyr ifainc y dalgylch yn dod i'r llwyfan i holi cwestiynau am eu harwyr pêl-droed, noson fythgofiadwy iddyn nhw 'rwy'n siŵr.Ar ran yr eglwys, cyflwynodd Dai Alun rodd fechan i Osian, sef llechen gyda'r geiriau 'Mae Hen Wlad Fy Nhadau' arno. Arwydd o'n gwerthfawrogiad am roi ei amser a'i gefnogaeth i'r plwyf.







Sian Fflur Jenkins enillodd Gwpan George Faraday yn nosbarth y Gwenynwyr Ifanc yn Sioe Fawr Llanelwedd. Llongyfarchiadau iddi!

Ar ôl sesiwn o dynnu lluniau gydag Osian, ymlaen at arwerthiant y crys pwysig wedi'u harwyddo gan garfan Cymru Ewro 2016. Ein harwerthwr oedd Mr Glyn Collins a diolch i Mr Lloyd Edwards o Benrhyn-coch, llwyddwyd i gynnig pris hael am y crys. 'Rwy'n siŵr bod nifer ohonoch yn cofio Lloyd yn refferi pêl-droed am flynyddoedd mawr. Mi wnaeth Lloyd anrhegu'r crys i'w or-nai, Carwyn Davies oedd yn bresennol ar y noson – roedd wrth ei fodd ac yn wên o glust i glust.

Mr Clive Gale, Bow Street, goruchwyliwr clwb pêl-droed Penrhyn-coch, gynigodd y swm uchaf am y Bêl-droed wedi'u harwyddo gan garfan Cymru Ewro 2016. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddo am ei haelioni tuag at y noswaith yn ogystal â gadael i ni gynnal y noson yn y clwb.

Diolch i James Harrison am werthu'r raffl. Enillydd llwyddiannus o gopi wedi'i arwyddo o lyfr Osian oedd Mr John Hughes, Pencwm, er i'w ferch Elen gipio'r wobr yn sydyn oddi wrtho!

Yn olaf hoffwn ddiolch yn fawr iawn i haelioni noddwyr y fenter sef: D J Evans Trefnwr Angladdau, Dylan Roberts o 'Salop Leisure', Will Lloyd Williams Cigydd (Machynlleth), ag i bawb a gyfrannodd fwyd a gwobrau raffl.

Canlyniad gwych oedd yr elw; codwyd dros fil o bunnoedd tuag at gynnal a chadw'r eglwys.

### Pen blwydd priodas ruddem

Dymunwn ben blwydd priodas ruddem hapus i Mervyn a Sue Hughes, Ger-y-llan oedd yn dathlu ar Fedi 11.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r canlynol sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Owena Hopton a'r teulu, 113 Ger-y-llan, ar golli ei gŵr Richie Hopton;

Mr a Mrs Theobald, Bryngolau, a'r teulu oll ar golli tad a thad-cu, sef Doug Theobald;

Huw, Caryl a'r teulu a chysylltiadau Laura Davies, Maesyrefail.

### Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Dave Pritchard, 2 Tan y Berth, sydd yn yr ysbyty.

### Pen blwydd

Cyfarchion pen blwydd i Anwen Morris, Preseli, oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 18 oed ar yr 8fed Medi. Pob dymuniad da yn y dyfodol.

### Cyfarfod hen ffrind

Dydd Sadwrn y 27ain o Awst hyfryd oedd cyfarfod â hen ffrind agos i mi. Roeddwn heb ei gweld ers bron i ddeugain mlynedd, er wedi bod mewn cysylltiad ar hyd y blynyddoedd drwy ysgrifennu a danfon cyfarchion y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac yn y blaen, ond cael cwrdd unwaith eto wyneb yn wyneb yn werth y byd.

Roedd Marina Murray (Humphreys) yn wreiddiol o Waungai, Comins-coch; priododd Albanwr a symud i'r Alban 59 mlynedd yn ôl. Roeddem ein dwy yn gweithio yn Aber ond yn treulio ein hamser hamdden yn byw a bod gyda'n gilydd. Er i'r ddwy ohonom golli ein gwŷr yn ifanc roedd cofion melys yn dod yn ôl inni wrth gofio am yr amser y bûm ni ein pedwar yn hapus iawn yng nghwmni ein gilydd. Yn anffodus roedd Marina yn ystod yr wythnos wedi bod yn angladd ei brawd Dewi yn Leeds, ond wedi penderfynu od i Aber am ddiwrnod neu ddau. Treuliom ein dy rai oriau yn mynd yn ôl dros yr amser da a gawsom yn Aber. Wrth gwrs mae'r dref wedi newid tipyn erbyn hyn. Fe dreuliem ni lawer o'n hamser pryd hynny yn y *King's Hall* a'r *Milk Bar* a chael llawer o hwyl gyda ffrindiau. Do! Bûm ein dwy yn cofio yn ôl at bopeth fyddem yn gwneud ar y pryd. Hynny yn y pumdegau, mae llawer o ddŵr wedi mynd dan y bont ers hynny fel y dywedir. Mae gan Marina un chwaer ar ôl yn byw yn Llangefni ac efo'i merch yn mynd at Myfanwy ar ôl bod yn gweld ffrindiau eraill yn Aber. Yr oedd yn amser bythgofiadwy i ni ein dwy.

**Mairwen**



Llongyfarchiadau i Glenys Morgan am ddod yn 1af am drefnu blodau yng nghystadleuaeth Merched y Wawr cenedlaethol yn y Sioe Frenhinol ar y thema Portmeirion. Meryl Davies y Llywydd sydd yn cyfwyno y gwobrau iddi.

### Merched Y Wawr

Ar ôl saib dros yr haf roedd yn amser i Ferched y Wawr Penrhyn-coch ail ddechrau am y tymor ac ar y noson agoriadol Nos Iau 8fed o Fedi cafwyd cwmni tri gwirfoddolwr o Feiciau Gwaed Cymru. Cafwyd amser i weld un o'r beiciau modur tu allan i'r neuadd ac fe fu Medwyn Parry y cydlynydd yn esbonio i ni y gwaith gwych maent yn wneud. Agoriad llygad oedd cael gwybod eu bod yn mynd a gwaed a llaeth y fron o ysbyty i ysbyty yn y Canolbarth a'r De bron pob dydd a hynny yn hollol wirfoddol ac yn hollol ddibynnol ar gyfraniadau ariannol y cyhoedd.
Os ydych am ragor o wybodaeth mae ganddynt wefan www.bloodbikeswales.org.uk ac hefyd dudalen gweplyfr - Blood Bikes Wales ac maent yn trydar @bloodbikeswales.



Sioe Penrhyn-coch



Brynhawn Sadwrn 3 Medi daeth teulu a chyfeillion John Ifor Jones ynghyd trwy wahoddiad agored gan ei ddau fab – Owain a Gethin - i Neuadd y Penrhyn i de parti anffurfiol i ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed. Cafwyd achlysur hyfryd gyda llond Neuadd o wahanol ardaloedd a chylchoedd wedi troi allan i ddymuno yn dda i'r gŵr hynod yma sydd wastad a gwen ar ei wyneb a sgwrs ddifyr. Diolch am y cyfle i fod yn rhan o'r digwyddiad.

**Diolch**

Hoffai John Ifor Jones, Maesyfelin, ddiolch i'r meibion – Owain a Gethin a'u teuluoedd am drefnu - gyda chymorth parod gwerthfawr Janice Evans, Maesyfelin a'i theulu - barti pen blwydd iddo i ddathlu ei ben blwydd yn 90 yn Neuadd y Penrhyn a hefyd i bawb drodd allan i fod yn rhan o'r dathlu.



Ann James, Pen-banc, Penrhyn-coch, Llywydd Cymdeithas Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont a'r Cylch, yn cyflwyno cwpanau i Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont yn y Treialon a gynhaliwyd ar Gaeau Llety Ifan Hen, Bont-goch, ar Awst 3ydd. 2016.

# BOW STREET

### Suliau Noddfa

**Medi**

25 Oedfa Menter gobaith yn y Morfa, Aberystwyth, am 10.00 Y Parchg Owain Llŷr Evans

**Hydref**

2 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Y Garn yn uno.
9 Oedfa am 10.00. Y Parchg Wyn Morris. Diolchgarwch. Y Garn yn Uno.
16 Cyfeillach am 10.00.
23 Oedfa am 2.00. Gweinidog
30 Oedfa'r Ofalaeth ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00. Gweinidog.

### Capel y Garn

**10.00 a 5.00**

**Medi**

18 Bugail
25 10.00 Oedfa Menter Gobaith yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth

**Hydref**

2 Noddfa Judith Morris
9 Oedfa'r ofalaeth
16 Bugail
23 Terry Edwards
30 John Tudno Williams

### Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mrs Sian Evans, 43 Maes Afallen, ar ddathlu ei phen blwydd yn 60 ar y 7ed o Fedi.

### Priodas

Llongyfarchiadau i Ian a Kate Evans, Tregerddan, a briododd dros yr haf. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rheinallt a Sarah Lewis, 40 Maes Ceiro, ar eu priodas yn ddiweddar yng ngwesty Caer Beris manor, Llanfair ym Muallt yn ddiweddar.



**Merched y Wawr Rhydypennau**
Rhai o aelodau Cangen Merched y Wawr, Rhydypennau, a enillodd y darian am y nifer mwyaf o bwyntiau yng Ngŵyl Fai Rhanbarth Ceredigion ar 14 Mai, yn Felin-fach. Cyflwynwyd y darian i Shân Hayward, Llywydd Cangen Rhydypennau, gan Llinos Davies, Llywydd yr Ŵyl.

### Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Tegwyn a Sian Evans, 43 Maes Afallen, a fydd yn dathlu eu priodas ruddem ar y 9fed o Hydref.

### Newid Aelwyd

Croeso mawr i Aled ac Erin a'r plant i'w cartref newydd yn 1 Cae Rhos. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

### Ar restr fer

Llongyfarchiadau i Meilyr Jones am gael ei ddewis ar restr fer o 12 o artistiaid ar gyfer y Wobr Gerddoriaeth Gymreig eleni. Crewyd y wobr yn 2011 gan y cyflwynydd radio, Huw Stephens, a'r hyrwyddwr, John Rostron ac mae enillwyr yn y gorffennol yn cynnwys Gwenno a Gruff Rhys, ac mae nifer o artistiaid sy'n canu yn y Gymraeg wedi'u henwi ar y rhestr fer eleni unwaith eto. Cyhoeddir enillydd y wobr ar 24 Tachwedd yn y Depot yng Nghaerdydd.

### Noddfa ar Daith

Yn ystod mis Mehefin ymwelodd



Priodas Rheinallt a Sarah yng Ngwesty'r Caer Beris Manor, Llanfair ym Muallt.




Noddfa ar Daith.

cyfeillach Capel Noddfa â Soar y Mynydd a chafwyd croeso cynnes gan aelodau'r capel a gwasanaeth bendithiol iawn dan ofal y Parchedig R.Alun Evans. Trefnwyd y daith fel arfer gan Jean Davies a chafwyd te i goroni'r prynhawn yn Y Talbot.

**Genedigaeth**

Dymuniadau gorau i Cerys a Craig Davies – ar enedigaeth Harri Richard Davies ar 19 Gorffennaf ; ŵyr i Tegwyn a Sian Evans, Maes Afallen.

**Dathlu Pen blwydd priodas**

Llongyfarchiadau i'r Parchg Richard a Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, ar ddathlu Priodas Ruddem ar 4 Fedi.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Bethan Hartnup, Maes Ceiro. sydd newydd golli ei brawd-yng-nghyfraith - Glen Emanuel -ym Mhenarth.

â Margaret ac Ambrose Roberts a'r teulu, Crud yr Awel, ar farwolaeth eu brawd yng nghyfraith, Gareth Davies, Llundain. ac â'r Parchg Elwyn Pryse, Isgarn, ar farwolaeth ei chwaer - Mrs. Bertha Jones, Llan-non , ddiwedd Awst.

**Eisteddfod**

Llongyfarchiadau i Vernon Jones, Gaerwen, ar ennill gwobr gyntaf am ei englyn unodl union ysgafn ar y testun 'angladd' yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy.

**Dymuniadau gorau**

Llongyfarchiadau i Dafydd Sion Rees, Brysgaga, ar ei ganlyniadau lefel A a phob hwyl ar y cwrs milfeddyg ym Mhrifysgol Lerpwl.

# Canolfan Byd Mari Jones

**Gwibdaith Capeli'r Garn a'r Noddfa i Ganolfan Byd Mari Jones**



Aelodau Capeli'r Garn a Noddfa, Bow Street, yn cael cyflwyniad i Ganolfan Byd Mari Jones gan Nerys Siddall



Aelodau Capeli'r Garn a Noddfa, Bow Street, yng Nghanolfan Byd Mari Jones, Llanycil




Plant yr ysgol Sul unedig yn yr orsaf yn Llanuwchllyn ar ôl taith ar y trên stêm o'r Bala.



Llongyfarchiadau i Anwen Pierce enillodd gadair Eisteddfod Powys yng Nghroesoswallt ym mis Gorffennaf.



Byrddau llawn yn Sioe Rhydypennau.

# Ail-fyw clochdar y ceiliogod gyda'r Beicwyr Blewog ar y BBC

Gyda thymor yr Hydref wedi dechrau'n swyddogol, braf oedd cael cyfle i ail-fyw ychydig o fwrlwm Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion yn rhaglen yr *Hairy Bikers*, "Chicken and Egg." ddarlledwyd nos Fawrth 6 Medi 2016 am 8yh ar BBC2. Gellwch ddal i fyny ar iPlayer. Pwy a ŵyr, efallai y gwelwch chi ambell i gymeriad o ardal y Tincer yn ymddangos? Os cofiwch chi, fe ffilmiodd yr Hairy Bikers eitem ar **Tom Hughes a Tomos Hughes-Jones**, Pantyperan, Llandre. Yn ystod y dydd, daeth llwyddiant i'r tad-cu a'i ŵyr, gyda cheiliog Tomos yn ennill y dosbarth i frîd leghorn.

Braf yw adrodd fod nifer o drigolion ardal y Tincer wedi cael hwyl ar gystadlu yn y Sioe. Dyma gipolwg ar rai o'r pencampwyr:

**Mrs Beth Walker**, Llety'r Ddwylan, Pen-bont Rhydybeddau - pencampwr adar dŵr; **Fred Williams**, Cefnllidiart, Capel Bangor-pencampwr yr adran merlod marchogaeth ar gyfer bridio, a phencampwriaeth mewn llaw i ferlod o dan 14.2 llaw o daldra; **Trystan Davies**, Llaingwyddil, Cefn-llwyd - pencampwr adran ŵyn y cigydd; **Jean Jones**, Pen-cefn, Penrhyn-coch - ci pedigri gorau; **Bertie Jones**, Bow Street - nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran fêl; **Sian a Megan Evans**, Cefn-llwyd - cynnyrch gorau yn yr adran planhigion cartref, llysiau a ffrwythau; **Mrs Brenda Jones**, Bow Street - nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran cyffeithiau; **Teleri Morgan,** Llandre - nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau ffotograffiaeth i blant ysgol uwchradd; **Ann-Louise Davies**, Capel Bangor - arddangosyn gorau yn yr Adran Goginio; **Mrs Glenys Morgan**, Penrhyn-coch - arddangosiad gorau yn yr adran Gosod Blodau.



Estynnwn ddiolch i bapur bro'r Tincer am gyflwyno cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn adran y Clybiau Ffermwyr Ifanc. Eleni, **Alaw Evans**, Pwllcenawon, Pen-llwyn - aelod o CFfI Trisant - ddaeth i'r brig. Gellir gweld rhestr lawn o'r enillwyr ar y wefan sioeaberystwyth.com/results.html

Llongyfarchiadau i chi i gyd, a diolch i bawb am gefnogi'r Sioe. Gobeithiwn eich gweld eto'r flwyddyn nesaf, ddydd Sadwrn 10 Mehefin 2017 - nodwch y dyddiad!

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Campws Arloesi a Menter Aberystwyth
Aberystwyth Innovation and Enterprise Campus

## Prifysgol Aberystwyth: Campws Arloesi a Menter Aberystwyth, Gogerddan


### DIGWYDDIAD YMGYNGHORI CYMUNEDOL

Mae Prifysgol Aberystwyth yn paratoi i gyflwyno cais cynllunio manwl i Gyngor Sir Ceredigion yn yr Hydref ar gyfer Campws Arloesi a Menter newydd ar Gampws Gogerddan y Brifysgol.

Bydd y Campws Arloesi a Menter yn un llawn bwrlwm sy'n arwain y byd, ac yn galluogi'r Brifysgol i gynyddu ei chynhwysedd ymchwil trwy fod yn gyrchfan i gwmnïau sefydledig a chwmnïau newydd, buddsoddwyr ac entrepreneuriaid ar gyfer y diwydiant amaeth-dechnoleg.

Bydd y cyfleusterau'n cynnwys Canolfan Bioburo, Canolfan Bwyd y Dyfodol, Canolfan Gwyddor Ddadansoddol a Bio-fanc Hadau a Chyfleuster Prosesu. Bydd hefyd yn darparu mannau cyfarfod ffurfiol ac anffurfiol a swyddfeydd.

Er y bydd y Campws Arloesi a Menter newydd yn cynyddu cynhwysedd y Brifysgol yn y sector amaeth-dechnoleg, bydd niferoedd staff a myfyrwyr y Brifysgol yn gyson â threfniadau cyfredol y Brifysgol.




### SUT I DDWEUD EICH DWEUD...

**18fed o Hydref 2016**

Digwyddiad galw heibio cyhoeddus yn Neuadd Bentref Penrhyncoch o 5.30y.p

I'w ddilyn gan gyflwyniad o gynlluniau arfaethedig Campws Arloesi a Menter Aberystwyth am 7y.h

Am fwy o fanylion cysylltwch â: Rhian Davitt-Jones, Cushman & Wakefield (0161 235 8995)

Ariannwyd Campws Arloesi a Menter Aberystwyth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, drwy Lywodraeth Cymru; gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) a chan Brifysgol Aberystwyth.

# Y BORTH

### Cystadleuaeth Golff RNLI Agored Flynyddol

Cynhaliodd Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las ei gystadleuaeth RNLI agored flynyddol ym mis Gorffennaf gan godi £1,021 i gefnogi gwaith achub bywyd y RNLI yn y Borth. Yn y llun (chwith i'r dde) yn gwneud y cyflwyniad mae Stephen Evans (Capten y Clwb), Paul Frost (Llywydd RNLI y Borth), Anna Hubbard (Trefnydd y Clwb), Pete Davies (Helm RNLI Y Borth), Ron Davies (Rheolwr RNLI y Borth) ac Alun Phillips (Rheolwr Gêmau Agored Y Clwb).




### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Pengraig ar farwolaeth chwaer a modryb – Mrs. Morwena Evans, Waunfawr.

### Symud

Dymunwn yn dda i Elin Hefin, Ynys Wen – Cadeirydd y Tincer – sydd wedi symud o'r Borth i Gaerdydd. Diolch iddi am ei gwaith fel Cadeirydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

### Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus i Bil Doyle (Doyle y doncis) a fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 ar 18 Medi.

Hefyd i John James, Moelcerni ar ddathlu ei ben blwydd yn 70!

### Coleg


Llongyfarchiadau i Mared Emyr ar ganlyniad ei lefel A. Dymuniadau gorau yng Ngholeg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, Caerdydd.

# Stori ddirgelwch yng nghyffro'r 1990au

**Dana Edwards** *Pam?*
Y Lolfa 2016. 288t. £8.99

Beth sy'n gwneud nofel dda? Stori afaelgar, cymeriadau credadwy, dïalog sionc a ffraeth, geirfa liwgar-amrywiol, adeiladwaith addas, cefndir daearyddol arwyddocäol mewn amser a lle. Wel, mae'r holl gynhwysion yna i'w cael yn nofel gyntaf Gymraeg Dana Edwards. Ac at hynny fe lwyddodd yr awdur i greu'r cyfuniad o densiwn a disgwyliad sy'n rhoi blas ar stori ddirgelwch. Gadewch i ni graffu ar rai o'r elfennau.

Euogrwydd y tri phrif gymeriad ynghylch eu rhan mewn damwain ingol ac effaith hynny ar eu hynt a'u helynt dros gyfnod o wyth mlynedd yw craidd y dirgelwch. Yn nyddiau eu diniweidrwydd yn fyfyrwyr prifysgol dyma Pam, ei ffrind agosaf Gwennan ac efaill honno Rhodri, yn cytuno i ddathlu'u penblwydd ar-y-cyd bob blwyddyn ar Orffennaf 13. Maen-nhw'n cadw at eu gair ond mae'r euogrwydd, er pob ymdrech i'w gladdu yn eu hisymwybod, ynghyd â throeon eraill bywyd, yn bwrw'i gysgod ar ac yn cymhlethu'r dathliadau. Y cyfarfyddiadau penblwyddol hyn yw testun deg pennod y nofel. Defnyddiodd yr awdur y ddyfais yma yn ffrâm i'w stori yn hynod gelfydd.




Mae'r prif gymeriadau yn driawd gogleisiol, a datblygiad eu cydberthynas dros y blynyddau yn cyfoethogi'r darlun. Pam yn cychwyn yn swil ond yn magu hyder, yn gydwybodol ac yn genhadol dros gyfiawnder; Gwennan yn gymdeithasgar ac uchelgeisiol ond yn cael ei sigo gan drallodion bywyd; Rhodri'n ddeallus ac yn dipyn o dderyn, ond yn cywiro'i ffaeleddau ac yn graddol ddod at ei goed. Camp nofelydd yw peri i ni gredu yn a phoeni am ei chymeriadau. Rhagorol.

Ond nid dim ond stori afaelgar sydd yma. Mae yma hefyd bortread deallusgraff o'r 1990au, cyfnod byrlymus-greadigol yn hanes gwleidyddol a diwylliannol Cymru a Cheredigion: datblygiad y mudiad cenedlaethol, refferendwm 1997 a sefydlu'r Cynulliad, twf addysg Gymraeg a'r ymdrech dymhestlog i greu a chynnal Radio Ceredigion. Gwnaeth Dana Edwards ddefnydd da a helaeth o'i phrofiad yn ymchwilydd i raglenni teledu wrth baentio'r gefnlen liwgar yma. Ac yn y canol y mae tref ryfeddol Aberystwyth y mae hoffder a manwl-wybodaeth yr awdur ohoni yn daearu'r cyfan mewn realiti diriaethol.

Nid nad oes yma unrhyw wendidau. Mae yna agweddau ar y plot a'i ddatrysiad sy hytrach yn sigledig ac ambell i olygfa ryw gymaint yn llai na chredadwy. Ond mân frychau yw'r rhain i basio heibio iddyn er mwyn gwerthfawrogi nofel gyntaf hynod ddifyr a meddylgar.

**Cynog Dafis**

**BYDD DANA EDWARDS YN SIARAD AM EI CHYFROL YNG NGHYMDEITHAS Y PENRHYN NOS IAU HYDREF 20.**

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

Dilynwch y Tincer ar Trydar
@TincerY

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 30 Mehefin yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Siân Jones. Derbyniwyd adroddiad misol y Cynghorydd Sir, Mr Paul Hinge a mynegwyd pryder ynglŷn ag un mater arbennig a ddaeth i'r golwg, sef y cwynion y derbyniodd parthed parcio i gleifion ac ymwelwyr yn Ysbyty Bron-glais. Mae'n amhosibl cael lle i barcio ar ôl wyth y bore gan fod staff ac ati yn llanw'r lle, pryd y dylent ddefnyddio eu maes parcio ar Ffordd Clarach a chael eu cludo yn y cerbyd sydd wedi ei ddarparu ar eu cyfer. Gwelir y cerbyd hwn yn oedi'n segur ger yr ysbyty yn fynych tra bod staff yn croesi drosodd i'r maes parcio. Mae'r sefyllfa yn hollol annerbyniol, ac mae Mr Hinge wedi cysylltu gyda'r Rheolwr Cyffredinol (Mathew Willis).

Nid yw'r Cynghorydd Hinge wedi derbyn unrhyw ymateb oddi wrth IBERS parthed problem y dŵr yng nghae chwarae Tregerddan, na dim pellach am y llwybyr arfaethedig o'r Dolau i Rydypennau. Ond mae cynllun y Llwybrau Diogel (dros bont y rheilffordd ar Ffordd Clarach) yn symud ymlaen, ac mae anghydfod dwys wedi bod rhyngddo â'r Priffyrdd ynglŷn â gosod arwyddion yng Nghlos Corwen, Llangorwen. Sylwodd fod toriadau porfa wedi eu gadael ar y troed i Ystâd Bryncastell ar ben sachau ailgylchu, ac ni fyddant yn cael eu casglu. Canmolodd y gwaith o dorri glaswellt ar gae chwarae Tregerddan, ond mae cŵn yn dal i faeddu'r cae yn ogystal a'r pafinau.

Deallir fod gwaith atgyweirio wedi ei wneud ar ran o Neuadd Rhydypennau, ac na chostiodd cymaint â'r amcanbris. Bydd y Cyngor yn talu hanner y bil fel yr addawyd. Penderfynwyd gofyn beth yw'r cynlluniau i'r dyfodol gan y pwyllgor. Ni dderbyniwyd ateb parthed reholau gwahardd cŵn ar dir cyhoeddus, na sylwadau ar gwtogi gwasanaeth bysiau yn yr ardal, na'r Park and Ride (sydd hefyd yn effeithio cludo i'r ysbyty).

Daeth un cais hwyr i law o'r Adran Gynllunio sef am godi ychwanegiad i weithdy presennol ar gyfer storio/garej i Fodurdy Brynsiriol yn Garn Yard, Pen-y-garn. Dim gwrthwynebiad.

Codwyd y mater o byllau dŵr ar y ffordd fawr (A487) tros ffordd i'r caban aros bws sydd o flaen Caerfelin. Derbyniwyd cwynion fod rhieni a phlant yn cael eu gwlychu pan fydd cerbydau yn mynd trwy'r pyllau. Ysgrifennir at yr asiant priodol. Mae gordyfiant ar Ffordd Clarach yn achosi trafferth i gerbydau a choeden ger Tro'r Cwm (Clarach) yn goleddu yn beryglus tuag at y ffordd. Gwneir cwyn am y ddau achos uchod hefyd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Gorffennaf.

**Cyfarfod mis Gorffennaf**

Llywyddwyd cyfarfod mis Gorffennaf gan yr is-gadeirydd y Cyng Rowland Rees. Cadarnhawyd bod angen cyfarfod cyffredinol i drafod dyfodol Neuadd Rhydypennau, sydd a'i chyflwr yn dirywio yn gyflym. Nid yw Prifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd fel petaent yn awyddus i drafod cyflwr Cae Chwarae Tregerddan, sef problem y dŵr, adroddwyd hefyd fod gormod o gŵn yn baeddu y cae, a'u bod yn cael mynediad i dir amaethu y Brifysgol (IBERS) drwy y maes chwarae. Gofidiwyd fod y gwasanaeth bysiau hwyr wedi terfynu yn yr ardal, a'r gwasanaeth Park and Ride yn Aberystwyth, yn enwedig y cludiant i'r ysbyty lle mae problem parcio enbyd, a hyd yn hyn mae'r awdurdodau yn cau llygaid i'r sefyllfa.

Cadarnhaodd y Cyng Paul Hinge ei sylwadau o'r mis diwethaf (Mehefin). Ychwanegodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â Tai Cantref parthed fod eu hymgymerwyr Griffiths wedi gadael heb osod ffensys yn y llefydd priodol ar y ffordd i'r cae chwarae. Cafodd addewid y byddai'r gwaith yn cael ei gyflawni ar fyrder. Mae angen sylw ar ddarn o ffordd o flaen y tai pellaf ym Mlaenddôl, mae hyn yn golygu fod dŵr yn niweidio'r tai. Y ffordd yn goleddu yn dilyn trafnidiaeth trwm.

Derbyniwyd adroddiad am y cyfarfod a fu yn Neuadd Rhydypennau yn ddiweddar gyda'r arddangosfa yn egluro cynllun yr orsaf arfaethedig yn Bow Street. Gwelwyd adroddiadau a llythyron yn y wasg leol tros ac yn erbyn y gwaith. Bu croesdoriad da o bobl yn bresennol, ac mae gan Brifysgol Aberystwyth ddiddordeb mawr yn y prosiect gan fod posibiliadau o ehangu gwasanaethau addysgol yng Ngogerddan yn y dyfodol.

Gan nad oedd neb yn dangos diddordeb i lanw bwlch wedi ymddiswyddiad un aelod, penderfynwyd cyfethol Mr Iestyn Hughes, Maesygarn, os bydd yn fodlon cymryd y swydd. Bydd y cyfarfod nesaf ar 29 Medi yn Neuadd Rhydypennau.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200



newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

owain bebb a'i gwmni
CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*
Aberystwyth 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa, Aberystwyth SY23 1AS
Caernarfon 01286 677 624
Pwllheli 01758 612646
post@owainbebb.cymru
owainbebb.cymru

# Ysgol Penrhyn-coch

### Sioe Aberystwyth
Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a gymerodd ran yn y cystadlaethau celf a chrefft ar Fehefin yr 11eg. Cafwyd nifer o wobrau a safleoedd 1af, 2il a 3ydd ac rydych wedi cefnogi digwyddiad pwysig yn yr ardal.

### Mabolgampau
Fel pob blwyddyn arall roedd y mabolgampau eleni mor gystadleuol ag erioed, pob un yn gwneud eu gorau ac yn dysgu ennill a cholli! Llongyfarchiadau i dîm Stewi eleni ac i'r capteiniaid Stephanie Merry a Trystan Thompson am arwain a chipio'r darian. Isabelle Hopkins ac Eddie Rhodes gafodd y pwyntiau uchaf ym mlwyddyn chwech ar draws yr holl gystadlaethau. Cafwyd ffrwythau ffres a digon o ddiod oer gyda'r Pwyllgor Rhieni, diolch i chi.

### Cyn ddisgyblion
Braf oedd cymorth dwy cyn ddisgybl yn ôl i'r ysgol ar brofiad gwaith o Ysgol Penweddig, sef Sioned Exley a Seren Wyn Jenkins. Roedd y ddwy yn barod iawn i helpu ymhob gweithgaredd a gobeithio eich bod wedi mwynhau.

### Trip i Heatherton
Gyda chwmni plant hŷn ysgol Pen-llwyn aethom i gyd eleni i fwynhau ym mharc Heatherton, ger Dinbych y Pysgod. Cafwyd diwrnod wrth ein boddau a braf oedd ymlacio cyn diwedd tymor brysur.

### Cŵn yr Heddlu
Cafwyd cyflwyniad difyr iawn ar fore y 12fed o Orffennaf lle bu PC Hefin Jones a PCSO Goffin a'i gŵn ym ymweld â'r ysgol. Dysgwyd llawer am eu gwaith o ddydd i ddydd a sut oedd y cŵn yn dod o hyd i gyffuriau peryglus.

### Diwrnod Parti a lawnsio llyfr dosbarth
Ar Orffennaf y 13eg cafodd y dosbarth derbyn a'u rhieni barti y Lindysyn llwglyd iawn ac yn ffodus i bawb daeth yr enwog Siani Flewog i ymuno yn yr hwyl ac wrth gwrs rhaid oedd gwrando ar stori ganddi. Roedd yna weithgareddau difyr o greu cibab ffrwythau ffres i ddadansoddi codau QR! Darllenodd Siani Flewog stori hyfryd i'r plant ac i'r rhieni cafodd pawb brynhawn o hwyl! Diolch o galon i Delyth Huws am ein cynorthwyo.

Wedi'r parti lawnsiwyd llyfr stori a gafodd ei hysgrifennu gan ddisgyblion dosbarth 2 gan Siani Flewog. Enw'r llyfr stori oedd *Cyffro'r Carnifal* a diolch i'r Lolfa am ei brintio. Archebwyd nifer o gopïau ac mi fydd yn gofnod gall y plant drysori am oes. Os am gopi dewch i holi yn yr ysgol - stori anturus am bedwar ffrind sydd ar eu ffordd i'r Carnifal! Cewch hyd yn oed cwrdd â cheffyl sydd yn siarad!

### Ysgolion Iach
Ar ddiwedd y tymor cafwyd asesiad Cam 4 i gynllun ysgolion iach y Sir. Bu pawb yn brysur yn casglu'r dystiolaeth briodol a nifer o blant y cyngor ysgol ac eco yn gwerthu'r hyn sydd ar y gweill ac sydd yn dda am ein hysgol ni. Llongyfarchiadau am lwyddo ac edrychwn ymlaen at weithio tuag at gam 5.

### Ffair Haf
Roedd ein ffair haf eleni yn wahanol i'r arfer lle cafwyd noson canol oesoedd yn thema i'r hwyl. Roedd disgyblion CA2 wedi paratoi gweithgareddau i ddathlu diwedd i waith y tymor ar y thema yma. Dangoswyd sgiliau bwa a saeth gampus gyda nifer ac roedd y cig mochyn yn flasus iawn. Noson hyfryd o gymdeithasu a diolch eto i'r rhieni a'r staff am sicrhau llwyddiant wrth baratoi'r cwbl.





### Ffarwel i flwyddyn 6
Hoffwn fel ysgol dymuno pob llwyddiant i ddisgyblion blwyddyn 6 wrth iddyn nhw ddechrau ar bennod newydd ym Mhenweddig a Phen-glais. Mwynheuodd y naw ohonyn nhw eu taith yn y car swanc a chafwyd hwyl yn y gweithgareddau allanol yng Nghapel Bangor.

### Sioeau Haf
Llongyfarchiadau i Elis Wyn ar ennill y gystadlaeuath creu wyneb cloc yn y Sioe Frenhinol.

Llongyfarchiadau hefyd i'r holl ddisgyblion a lwyddodd yng nghystadlaethau celf a chref yn sioe Penrhyn eleni.

### Croeso
Croeso i Sophie Gillies, Osian Farmer, Cory Perche a Jasmine Brown sydd wedi dechrau yn y dosbarth derbyn yr wythnos diwethaf yn ogystal â Lacey Walker ym mlwyddyn 5

### Diolch
Rydyn wedi ffarwelio a sawl aelod o staff ar ddiwedd y tymor a hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch iddyn nhw i gyd am eu hymroddiad a'u cyfeillgarwch -Anne Daniell, Rachel Taylor, Michaela Richards a Sarah Bennett a chroeso arbennig i Steffan Bonsall a fydd yn athro i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6. Croeso nôl hefyd i Gwenelen Hughes i ddosbarth 2 ac i Julie Hall wedi i'r ddwy fod ar gyfnod mamolaeth.

### Digwyddiadau
-Cofiwch fod y siop lysiau a ffrwythau ar agor am 3:00 bob Dydd Iau
-Bore Coffi McMillan yn neuadd yr ysgol ar fore Dydd Gwener y 30ain o Fedi am 10:00 yb-Croeso cynnes i bawb





# Ysgol Craig yr Wylfa

### Croeso

Ar ddechrau'r tymor, hoffwn groesawu disgyblion newydd i'r ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen croesawn Talia a Iyla i'r Derbyn, Daniel ac Anthony i Flwyddyn 1 a Maya i Flwyddyn 2. Yn nosbarth Cyfnod Allweddol dau, croesawn ddisgyblion o Ysgol Llangynfelyn - sef Katy, Noah, Dylan, Iwan, a Finn; Mark yn ôl o Ysgol Llan-non ac hefyd dwy aelod o staff newydd sef Miss Tessa a Miss Rhiannon, a fydd yn gweithio fel cynorthwywyr yn y dosbarth. Yn ogystal â hyn, dymunwn pob hwyl i Mrs Edwards a fydd yn dechrau ar ei swydd newydd fel Prifathrawes yr Ysgol am y flwyddyn sydd i ddod!

### Ffarwelio

Ar ddiwedd tymor yr Haf, roedd yr ysgol yn drist iawn i ffarwelio a dau ddisgybl o flwyddyn 6, a dwy aelod ffyddlon o'r staff. Ffarweliwyd a dau strab o flwyddyn 6, sef Harvey a Jac, a dymunwn pob lwc iddynt yn Ysgol Pen-glais. Ffarweliom a Wendy Jones y gogyddes, a oedd wedi bod yn coginio prydau blasus yn yr ysgol am dros 14 o flynyddoedd. Dymunwn bob hwyl iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Rhydypennau. Hefyd ffarweliom a dymunwyd yn dda i Miss Rhian, ar ei chwrs Addysgu yng ngholeg Bangor.

I ffarwelio â phawb ac i ddathlu llwyddiant pob disgybl dros y flwyddyn, cynhalwyd Cyngerdd Ffarwelio ar eu cyfer oll ar ddiwedd y tymor. Cymerwyd rhan gan bob disgybl, wrth iddynt rannu eu talent wrth berfformio. Da iawn chi – arbennig! Roedd y noson yn un llawen a llwyddiannus.

### Trip Ysgol

Ar ein trip ysgol blynyddol eleni, aeth yr ysgol gyfan i "Ar y Bêl" yn Ffos-y-ffin, ble roedd y plant (a'r staff) yn llawn cyffro i chwarae yn yr ardal chwarae meddal. Cafodd pawb lawer o hwyl! Yn dilyn, aethom i barc Aberaeron, ac wrth gwrs, roeddwn yn methu gadael Aberaeron heb gael hufen iâ a mynd lawr i'r môr am dro. Am ddiwrnod i'r brenin!

### Te Prynhawn i'r henoed

Cynhaliwyd te prynhawn hynod o flasus a oedd yn ddigon o ryfeddod, a baratowyd gan Delyth a Wendy. Roedd pawb wedi bwyta llond eu boliau o gacennau bendigedig! Diolch iddynt am ei ddarparu.


















# Taith gerdded y mis

## Bont-Goch i Bwlchyradwy

Man dechrau: Ar ochr y ffordd ger mynediad Pantyffynnon.
Map: OS Explorer 213 . GR . SN 688867.
Pellter: 5milltir. Peth dringo hawdd nes cyrraedd Bwlch Yr Adwy.




Mynd drwy'r iet a throi i'r dde a dilyn y llwybr hyd at Bwlch y Maen a throi i'r chwith ac fe welwch y llwybr o'ch blaen yn mynd tuag at Bwlch Yr Adwy. O'r Bwlch byddwch yn dilyn y feidr i gyfeiriad Moelglomen, a throi i'r chwith pan gyrhaeddwch y ffordd. Mae'n hollol bwysig bod map OS Explorer gennych ar gyfer y daith hon.

# DÔL-Y-BONT

**Ethol yn Llywydd**
Llongyfarchiadau i Meirion Lewis, Cysgod y Gwynt, ar gael ei ethol yn Llywydd Clwb y Llewod, Aberystwyth.

**Brysiwch wella**
Anfonwn ein cofion at Mr. John Hughes, Bryndderwen, sydd wedi treulio rhan helaeth o'r haf yn Ysbytai Bron-glais a Thregaron ond rydym i gyd yn falch ei fod adre erbyn hyn. Gwellhad buan i Joy Evans, Tynsimdde, sydd wedi bod yn Ysbyty Bron-glais ddiwedd mis Awst.

**Gwasanaeth coffa**
Ganol mis Awst cynhaliwyd gwasanaeth coffa yng Nghapel y Babell ac yna claddwyd llwch Wyn Evans ym mynwent Eglwys Llandre. Roedd Wyn yn fab i'r diweddar Polly a Sidney Evans, Sunnyhill, Glanwern a chydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedsigaeth.

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:
Dysgu Bro Ceredigion Community Learning
01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk

# Colofn Enwau Lleol

**Disgwylfa Fawr**
Enw'r mynydd sy'n gorwedd yn union i'r dwyrain o lyn Syfydrin yw *Disgwylfa Fawr*, a cheir mynydd llai, *Disgwylfa Fach*, ychydig i'r de.

Cyfuniad yw'r enw o'r ferf *disgwyl* a'r terfyniad *-fa* 'lle', yn dynodi 'man disgwyl'. Nid yr ystyr gyffredin 'aros' sydd i *disgwyl* yma, fodd bynnag, ond yn hytrach 'gwylio' neu 'gadw gwyliadwraeth'. Mae'r enw'n ddisgrifiad hynod addas i fryn uchel lle ceir golygfa glir o'r tiroedd o'i amgylch.

Fe gofiwch yn chwedl Culhwch ac Olwen mai un o'r tasgau i'w cyflawni cyn i Gulhwch gael priodi Olwen oedd tynnu barf Dillus Farfog, ac yntau'n dal yn fyw, er mwyn gwneud tennyn i Drudwyn, ci Graidd fab Eri, ar gyfer hela'r Twrch Trwyth. Mae'r chwedl yn disgrifio Cai a Bedwyr yn eistedd ar *Garn Gwylathr* ar ben *Pumlumon* ac yn sylwi ar fwg mawr yn codi o dân ymhell i'r de, lle mae Dillus Farfog yn rhostio baedd. Arhosant hyd nes bod Dillus yn syrthio i gysgu ar ôl bwyta ei wala, cyn mynd ati i dyllu'r pwll mwyaf yn y byd a'i wthio i mewn er mwyn tynnu ei farf.

Ni wyddom bellach ym mhle ar *Bumlumon* yr oedd *Carn Gwylathr*, ond cynigiwyd Drum Peithnant fel lleoliad posibl.

Awgrymodd Cledwyn Fychan y gallasai *Erwbarfe*, i'r de-dde-orllewin o *Bumlumon*, fod unwaith yn gysylltiedig â'r chwedl, oherwydd yr elfen *barfau*, ffurf luosog *barf*, yn yr enw. Byddai'r ceunant dwfn yn Afon Rheidol gerllaw'r fferm yn gweddu i'r dim o ran natur a lleoliad i'r pwll y gwthiwyd Dillus iddo er mwyn tynnu ei farf.

Ar ddechrau'r stori, sonnir fel hyn am Gai a Bedwyr:

"Bryssyaw a orugant parth a'r mwc, a dynessau parth ac yno dan ***ymardisgwyl*** o bell"

*Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans, 1988, t. 34.

Gan fod mynyddoedd *Disgwylfa Fawr* a *Disgwylfa Fach* wedi eu lleoli'n fras rhwng *Pumlumon* ac *Erwbarfe*, tybed ai yno y bu Cai a Bedwyr yn 'gwylio' neu'n 'cadw gwyliadwraeth' ar Ddillus Farfog cyn ymosod?

Ceir enghreifftiau eraill o *Disgwylfa* fel enw lle ar hyd a lled Cymru, gydag un heb fod ymhell yng Nghwm Ceulan uwchlaw Tal-y-bont.

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**



Disgwylfa Fawr, gyda Disgwylfa Fach i'r dde.

# Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017

I'r rhai ohonoch sydd heb glywed eisoes, rydym yn falch iawn o gyhoeddi y bydd yr Ŵyl Cerdd Dant yn dod i Landysul ym mis Tachwedd y flwyddyn nesaf. Bydd Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017 yn gyfle euraidd i ddod â budd economaidd a chyhoeddusrwydd i'r dref ac yn gyfle gwych i arddangos rhinweddau arloesol Ysgol Bro Teifi lle bwriedir cynnal yr Ŵyl. Mae'r gwaith paratoi eisoes wedi dechrau a phawb yn awyddus i sicrhau y bydd Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro yn un llwyddiannus a llewyrchus. Fel y gallwch ddychmygu, mae gwahodd Gŵyl fel hon i'r fro yn fater costus ac mae tipyn o her o'n blaenau i godi'r targed ariannol o £40,000 ac felly gofynnwn yn garedig am gymorth a chefnogaeth ariannol. Os hoffech noddi'r Ŵyl neu'i chefnogi mewn unrhyw ffordd, anfonwch neges e-bost at noddwyr@gwylcerdddant2017.cymru neu ffoniwch un o ysgrifenyddion yr is-bwyllgor cyllid i gael pecyn nawdd a mwy o fanylion – Julia James ar 01239 710808 neu Ellen Evans ar 07877 241877. Er mwyn lansio'r cyfan, cynhelir cyngerdd fawreddog yn Ysgol Bro Teifi nos Wener 4 Tachwedd eleni am 7.30pm i gyhoeddi bod yr Ŵyl yn dod i Landysul flwyddyn nesaf. Ymhlith yr artistiaid bydd Côr y Wiber, Catrin Aur, Fortza, Elen Morgan, Dawnswyr Talog a Chôr Bro Teifi, a'r cyfan dan arweiniad medrus Iwan Griffiths. Bydd tocynnau yn £10 i oedolion a £5 i blant 16 ac iau.

**y tincer**

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Ysgol Rhydypennau

### Ffarwelio

Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 llynedd wrth iddynt ddechrau bywyd addysgol newydd yn yr ysgolion uwchradd. Derbyniodd pob un ohonynt rodd wrth ymadael â'r ysgol am y tro olaf.

Ymddeoliad hapus i Mrs Meinir Fleming, cogyddes yr ysgol am dros ugain mlynedd. Mae Mrs Fleming wedi plesio boliau cannoedd o blant dros ei chyfnod yn yr ysgol ac mi fydd ei hymroddiad, cyfeillgarwch a'i thalentau di-ri yn golled mawr i'r ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Mrs Fleming am ei gwasanaeth amhrisiadwy.

Dymuniadau gorau i Mr Havard yn dilyn ei ymddeoliad ddiwedd fis Gorffennaf. Hoffai'r staff a holl blant yr ysgol ddymuno pob hwyl ac ymddeoliad hapus iawn!



### Garddwest yr ysgol

Ar y 26ain o Fehefin cynhaliwyd Garddwest yr ysgol. Cafwyd nifer o weithgareddau difyr ac amryw o stondinau er mwyn codi arian i'r ysgol. Diolch o galon i Bwyllgor Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth hefyd. Diolch i'n prif noddwyr, Gwyn a Janet Evans. Diolch hefyd i noddwyr y gwobrau, Rhodri a Cêt Morgan, Mid Wales Travel a Rob ac Alison Grover am eu cyfraniadau hael hwy. Mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y noson yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau pwysig iawn er mwyn hyrwyddo addysg pob plentyn yn yr ysgol.

### Dal lan â'r digwyddiadau Mabolgampau

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 21ain o Fehefin. Y tîm buddugol eleni oedd Eleri; ail oedd Rheidol ac Ystwyth yn drydydd. Llongyfarchiadau i Lili Lyons am ennill y nifer o bwyntiau yng nghystadleuaeth y merched ac Oliver Bent am ennill y nifer o bwyntiau yng nghystadleuaeth y bechgyn.





### Gala Nofio

Enillwyr Gala Nofio'r ysgol eleni oedd Eleri. Elen Morgan lwyddodd i ennill y wobr am y nifer fwyaf o bwyntiau yng nghystadleuaeth y merched a Gerwyn Humphreys lwyddodd i ennill cystadleuaeth prif bwyntiau'r bechgyn. Campus!.

### Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Gorffennaf:-
1af-£25- Efan James, Penrhyn-coch.
2il-£15- Elen Ifan, Garregwen.
3ydd-£10- Elin Pierce Williams, Brynmeillion, Bow Street.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*

# Ysgol Rhydypennau yn ffarwelio â Mr Havard

Yn rhan o Arddwest flynyddol Ysgol Rhydypennau yr haf yma cafwyd cyfle i ddiolch o galon i Mr Havard am ei flynyddoedd hir o wasanaeth fel pennaeth yr ysgol a dymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad. Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang i glywed cadeirydd y llywodraethwyr, Amlyn Ifans, a chadeirydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, Rhodri Llwyd Morgan, yn mynegi eu diolch i'r pennaeth. Canodd y plant gân gofiadwy wedi ei chyfansoddi gan y staff, a chyflwynwyd cerdd gyfarch gan y Prifardd Huw Meirion Edwards, wedi ei llythrennu'n gain gan Helen Jones, athrawes blwyddyn 2, gyda gwaith celf gan Ruth Jên. Diolch i Anna Jones, sydd hefyd ar staff yr ysgol, am y lluniau o'r digwyddiad.

***

**Ffarwél i Mr Havard**

Daeth yr amser i ffarwelio
Â'n prifathro hoffus ni,
Amser nawr i chi ymlacio,
Hwyl fawr, pob lwc i chi.

*Cytgan:*
*Diolch i Mr Havard*
*Fe wnaethoch eich gorau i ni*
*Diolch i Mr Havard,*
*Bydd pawb yn eich colli chi.*
*O! tybed beth fydd y dyfodol i chi?*

Cyfri arian, real Cardi,
Trip bach lawr i'r banc bob dydd,
Beth am swydd fach wrth y cownter
Yn yr hen HSBC!

Buoch unwaith yn serennu
Mewn siorts ar gae pêl-droed,
Eich dileit yw Swansea City,
Ond rhy hwyr, chi'n chwe deg oed!

Beth am fod yn yrrwr tacsi?
Seciwricor neu ddyn B.T?
Rheolwr ffwtbol neu weinidog
Neu stopio'r traffig 'da Mrs P!!

*Cytgan:*
*Diolch i Mr Havard*
*Fe wnaethoch eich gorau i ni*
*Diolch i Mr Havard,*
*Bydd pawb yn eich colli chi.*
*Ni fydd y lle hwn yr un fath hebddoch chi.*

***



Adrian a Dawn Havard gydag Amlyn Ifans a Rhodri Llwyd Morgan a'r gerdd a gyflwynwyd i nodi'r ymddeoliad



Llond llwyfan o blant yr ysgol yn canu i ffarwelio â Mr Havard ]

**I Adrian Havard ar ei ymddeoliad**

Daw pennod yn Rhydypennau i ben,
A bydd, pan ddaw'r gwyliau,
Lond gwlad o ddiolchiadau
Dros sŵn cwyn y drws yn cau.

Mae'r diolch am ŵr diwyd, am gyfaill,
Am y gofal hyfryd
Tuag at ei blant i gyd,
Am ofal i'w dîm hefyd.

A stafell Mr Havard yn wacach,
Daw eco'i gyfarchiad
O waliau'r hen adeilad
Ar ei ôl, a bydd parhad.

**Y Prifardd Huw Meirion Edwards**

**(Gweler llythyr gan Mr Havard ar t3)**


SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# Tasg y Tincer

Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau, ac wedi setlo yn eich dosbarthiadau a'ch ysgolion newydd. Diolch i bawb fu'n lliwio llun y plant â'u hufen iâ, a dyma'r enwau: Ffion, Dolgellau; Gwen a Mari Gibson, Penrhyn-coch; Cari Jenkins, Penrhyn-coch; Ffion Mari Curley, Penrhyn-coch; Dylan Rhys Herron, Bow Street; Megan Hughes, Tal-y-bont; Owen Jac Roberts, Rhydyfelin; Lewis Ashton, Llanilar; Anna Jên Dunne, Bont-goch; Osian a Bleddyn Lewis, Tal-y-bont.

Dy enw di, Ffion Curley, ddaeth o'r het gynta – hwrê! Daliwch ati, bawb!


Rydyn ni'n dathlu diwrnod arbennig iawn ar 16 Medi: Diwrnod Owain Glyndŵr. Yn ôl y sôn, dyma'r dyddiad yn 1400 y cyhoeddwyd mai ef oedd Tywysog Cymru. Roedd yn arweinydd dewr ac yn llawn cynlluniau mentrus. Roedd am weld Cymru ar y brig, ac mae rhai yn credu bod ei ysbryd yn fyw o hyd! Mae dyn dysgedig iawn o ardal *Y Tincer* – Gruffydd Aled Williams – wedi ysgrifennu llyfr, *Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr*, gan ennill gwobr arbennig yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn ddechrau'r haf . Llongyfarchiadau mawr iddo!




Dyma dasg anoddach i chi'r mis hwn, sef lliwio llun o gastell Glyndŵr yn Sycharth, ger Llansilin. Castell mwnt a beili oedd hwn, ac mae'r olion i'w gweld o hyd. Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Hydref 1af. Ta ta tan toc!



Ffion



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru

CYMRAEG

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 391 | MEDI 2016